**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 26 Tachwedd 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| P Lloyd | H M Morris | C L Philpott |
| B J Rowlands | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Barrie Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: N J Davies, S J Gallagher a L G Thomas

---

## 27 Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 28 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 29 Apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â chymeradwyo Gyrrwr ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol - SCN.

Cynghorodd yr Arweinydd Tîm, Trafnidiaeth Teithwyr, fod SCN wedi nodi nad oedd yn dymuno dod i'r cyfarfod a'i fod wedi gofyn i'r mater gael ei ddatrys yn ei absenoldeb.

Nododd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Pwyllgor nad oedd unrhyw reswm cyfreithiol dros beidio â gallu datrys y mater yn absenoldeb SCN.

Manylodd yr Arweinydd Tîm Trafnidiaeth Teithwyr ar y cefndir mewn perthynas ag SCN, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** gwrthod apêl SCN yn erbyn y penderfyniad i beidio â'i gymeradwyo fel gyrrwr Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd yr aelodau'n fodlon fod SCN yn iach, yn ddiogel ac yn addas i'w gymeradwyo fel gyrrwr cludiant ysgol o dan adrannau 4.14, 4.16, 4.17 a 4.31 yr arweiniad ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y masnachau cerbydau hacni a hurio preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.21am

**Cadeirydd**